

Gwers 28 - Y pedwar ffrind caredig

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Luc 5: 17-26

Yn ôl yr Apostol Paul, meddyg oedd Luc, 'Y mae Luc, y meddyg annwyl' (gweler Colosiaid 4:14). Eglura hynny ddiddordeb Luc mewn pobl, yn enwedig pobl afiach. Brithir ei efengyl gyda hanesion am Iesu yn iacháu, o unigolion megis mam yng nghyfraith Simon Pedr a oedd yn dioddef o'r dwymyn (Luc 4:38) i ddeg o wahangleifion (Luc 5:12-15).


Y mae'r hanes rhyfeddol yma yn cael ei gofnodi hefyd gan Mathew a Marc. Marc yn unig sy'n dweud mai pedwar cyfaill oedd gan y claf. Daethant â'r claf at y tŷ ac wedi methu cael ffordd i mewn, dringasant ar y to. Yn nyddiau'r Beibl adeiladwyd tai o gerrig gyda thoi fflat; esgynnai grisiau ger ochr y tŷ yn arwain i'r to. Er bod Luc yn cyfeirio at 'priddlechi', y tebygrwydd yw bod y to wedi ei wneud o fwd yn gymysg â gwellt neu ddellet. Felly, nid oedd yn waith anodd creu twll yn ddigon mawr i ollwng y claf ar ei wely (sylwer mai matras yw gair Marc), i lawr at draed Iesu.

Pan glywodd yr arweinwyr Iddewig Iesu'n dweud wrth y claf, 'Ddyn, y mae dy bechodau wedi eu maddau iti' (Luc 5:20), cyhuddasant ef o gabledd, gan ddweud mai gan Dduw yn unig yr oedd yr hawl i faddau pechodau. Yr oedd Iesu, honasant, yn euog o drosedd a'r gosb oedd marwolaeth (Lef. 24:16). Yr oedd maddeuant pechodau yn arwydd fod yr oes Feseianaidd wedi dod (Joel 2:32).

Y mae ffydd y pedwar cyfaill yn ganolog yma, (am enghreifftiau o ffydd eraill, gweler Luc 7:9 a 1 Cor. 7:14), ond y mae'r defnydd o'r llyso, 'wrth weld eu ffydd hwy', yn awgrymu fod gan y claf ffydd yn Iesu. Anodd yw credu y byddai'r claf wedi ei iacháu oni bai fod ganddo ef ei ffydd ei hun. Ymwneud â phechodau y mae geiriau cyntaf Iesu, nid â'r afiechyd. Dywed un ysgolhaig fod y digwyddiad hwn yn dangos yn bennaf fod awdurdod Iesu yn dechrau gyda maddeuant pechodau. I'r diben hwnnw y daeth Iesu i'r byd i achub eneidiau.

Y Phariseaid

Ystyr yr enw yw 'y rhai wedi ymneilltuo' neu 'y rhai gwahanedig'. Credent fod y Gaethglud yn ganlyniad torri Cyfraith Duw gan eu cyndadau. Y peth cyntaf a wnaeth Esra wedi'r dychweliad i Jerwsalem oedd gosod trefn ar arferion addoli'r Iddewon (gweler Gwers 22). Roedd y Phariseaid yn cadw golwg ar faterion crefyddol y dydd ac yn treulio llawer o'u hamser yn diffinio a thrafod corff mawr o draddodiad crefyddol a gasglwyd dros bedair canrif ers dychweliad yr Iddewon o'r Gaethglud. Roeddent wedi ymgolli cymaint yn y traddodiadau o waith dynion fel eu bôn't yn colli golwg ar yr Ysgrythyrau. Bygythid hwy gyda dyfodiad Iesu oherwydd roedd ef yn herio eu diffuantrwydd a'r ffaith fod y pobl yn cael eu denu tuag ato.



Mae Iesu'n cyflawni gwyrrth. Beth mae'r dynion yn ei wneud ar y to?
Una'r dotiau i gael gweld. Darllen y stori hon yn Luc 5:17-26.
Beth ddigwyddodd i'r dyn ar y gwely?

Gwers 28 – Y pedwar ffrind caredig

Dyn nad oedd yn gallu cerdded | Luc 5:17–26

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 120



Gwers 28

Y pedwar ffrind caredig

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Y Pedwar ffrind caredig tud 120

BEIBL LLIW STORI DUW

Y dyn ar y fatras tud 228

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Mynd drwy'r to tud 94

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Dyn oedd yn methu cerdded tud 148

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÀU

I lawr drwy'r to tud 303

I ddechrau

Bydd angen doli, a thywel mawr (2 dywel a 2 ddoli os oes dosbarth mawr).

Dywedwch wrth y plant fod y ddoli wedi torri ei choes, a'i bod hi angen gweld meddyg. Cynlluniwch lwybr o amgylch yr ystafell/capel a dywedwch wrth y plant bod yn rhaid dilyn y llwybr cyn dychwelyd i'r dosbarth, gan gario'r ddoli ar y tywel heb ei gollwng, gan symud mor gyflym â phosib. Dylai fod un plentyn yn cydio ym mhob cornel o'r tywel. Os nad oes digon o blant, rhaid addasu. Os oes digon o blant gellir cynnal ras rhwng 2 dîm.

Yr hanes

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod wedi cario person sydd yn sâl yr holl ffordd i'r feddygfa, ac yna wedi cyrraedd, ei bod hi'n amhosib' mynd i mewn at y meddyg oherwydd bod y Feddygfa'n llawn! Digwyddiad tebyg sydd yn y stori Feiblaidd yr wythnos hon, lle mae pedwar ffrind i ddyn sy'n methu cerdded o gwbl yn ei gario ar fatres at Iesu Grist. Ond wedi cyrraedd, mae'n amhosibl mynd i mewn i'r tŷ oherwydd bod cymaint o bobl yno eisiau gweld a gwrando ar Iesu.

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau.

Cadarnhau'r stori

Ail adroddwch y stori gan ofyn i'r plant ymateb fel hyn:

- Roedd Iesu mewn tŷ ac roedd y tŷ yn llawn o bobl (y plant i symud yn agos, agos at ei gilydd fel grŵp)
- Dringodd 4 ffrind y grisiau i ben y to (actio dringo grisiau)
- Fe wnaethon nhw glymu rhaff i wely bach (actio clymu rhaff)
- Fe wnaethon nhw ollwng y gwely bach drwy'r to (actio gollwng rhaff trwy eu dwylo)
- Roedd eu ffrind yn awr yn gallu gweld Iesu! (rhoi llaw dros y llygaid fel person yn edrych o gwmpas)
- Nid oedd y ffrind yn gallu cerdded (pawb i eistedd ar lawr)
- Ond dyma Iesu yn iacháu'r dyn, ac yna gallai gerdded (neidio i fyny a hercio o un goes i'r llall)
- Roedd y dyn yn hapus iawn, iawn fod ei ffrindiau wedi ei gario at Iesu! (y plant i daro 5 [high fives!] gyda'i gilydd).

Cymhwyso'r stori

Trafodwch gyda'r plant pa rwystrau/broblemau a wynebai'r 4 ffrind wrth fynd â'u ffrind at Iesu, e.e. gorfod cario pwysau trwm/methu mynd i mewn i'r tŷ/gorfod cario'r gwely a'r ffrind i fyny grisiau i'r to/sut i wneud y twll yn y to/ofni y byddai perchennog y tŷ yn flin/ofni y byddai Iesu yn flin gyda nhw/sut i ollwng y dyn ar y gwely heb ei ollwng.

Oes rhwystrau yn ceisio ein stopio ni rhag mynd at Iesu, e.e. plant eraill yn gwneud hwyl am ein pennau oherwydd ein bod yn mynd i'r capel neu'r Ysgol Sul/clybiau chwaraeon ar fore Sul/geiriau anodd yn y Beibl? Anogwch y plant i geisio goresgyn unrhyw rwystrau, oherwydd adnabod Iesu Grist yw'r peth pwysicaf un mewn bywyd.

Dysgu adnod

'Ond y mae gyda thi faddeuant', (Salm 130:4)

Neu,

'Ond rwyd ti'n barod i faddau', (beibl.net).

Dysgwch yr arwydd llaw am faddeuant i'r plant, (dal y llaw chwith yn agored ar lefel y wasg, gyda chleddr y llaw at i fyny. Llaw dde'n agored yn cyffwrdd y gwefusau. Symud y llaw dde i lawr at y llaw chwith a rhwbio cleddrau'r dwylo gyda'i gilydd mewn siâp cylch, fel petaech yn ceisio rholio plastisin yn belen).

Dysgwch yr adnod gan wneud yr arwydd llaw wrth ddweud y gair 'maddeuant'.

Gweddi

Bydd 2 ran i'r weddi: a. gweddi'o dros blant sâl; b. gofyn i Iesu am faddeuant.

a. Dangoswch lun gwely sydd mewn cylchgrawn.

Gofynnwch i'r plant pa afiechydon sy'n cadw plant yn gaeth i'r gwely.

Gofynnwch i'r plant weddio dros blant sydd yn sâl.

b. Dangoswch fag ysbwriel du i'r plant.

Eglurwch fod Iesu wedi dweud yn aml ei fod yn maddau pechodau, ond mae angen i ni ofyn iddo wneud hynny. Rhowch ddarn bach o bapur gwastraff i bob plentyn. Dywedwch wrthynt am feddwl am rywbeth drwg a wnaethon nhw yn ystod yr wythnos. Arweiniwch y plant i ddweud 'Sori' mewn gweddi fer, ac yna dywedwch wrthynt nhw am daflu'r papur i'r bag ysbwriel. Mae gwneud pethau drwg fel ysbwriel yn ein bywydau ond mae Iesu yn cael gwared â'r ysbwriel.

Gweithgaredd ychwanegol

Gêm y dyrfa: faint o bobl sy'n gallu ffitio i mewn i un sêd yn y capel? Rhowch gynnig ar geisio cael cynifer ag sy'n bosibl i mewn i un o seddi'r capel. Neu, os ydych chi'n cyfarfod mewn ystafell neu neuadd, marciwch sgwâr eithaf bach ar y llawr gyda sialc neu dâp, a gwneud yr un peth. Meddyliwch am y dyrfa yn y tŷ yn y stori!

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 5 oed t. 145, 146.

Tafleuni gwefan amserbeibl.org

CyfresB - Pobl y cwrddodd Iesu â nhw

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 41: Syniad Da

Llyfrau Stori

Cyfres stori llun yn symud: Iesu yn lachau

